

Bwrdd yr Ymddiriedolion

17 Medi 2021

11.00 - 1.00

Yn bresennol:

Aelodau:

Lee Yale-Helms (Trysorydd a Chadeirydd Dros Dro)	Susan Davies
Carl Williams	Elaine Treharne
Quentin Howard	Elin Royles
Mike Cavanagh	Lydia Rumsey
Janet Wademan	David Hay

Ashok Ahir (Llywydd Dros Dro, a oedd yn bresennol ar gyfer rhan o'r cyfarfod)

Tîm Gweithredol:

Pedr ap Iliwyd	Prif Weithredwr a Llyfrgellydd
David Michael	Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd
Owain Roberts	Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd

Sylwedyddion:

Nicky Guy	CyMAAL
Catrin Hughes	CyMAAL
Illtud Daniel	Pennaeth Seilwaith Digidol
Sally McInnes	Pennaeth Cynnwys Unigryw a Chyfoes
Manon Foster Evans	Pennaeth Cynnwys Cyhoeddedig a Gwasanaethau Ymchwil
Mark Stevens	Pennaeth Ystadau a Gwasanaethau Atodol
Dafydd Tudur	Pennaeth Ymgysylltu a Chynnwys Digidol
Emyr Phillips	Pennaeth Cyllid a Menter
Nia Dafydd	Cyngor Partneriaeth
Doug Jones	Cyngor Partneriaeth
Annwen Isaac	Rheolwr Adnoddau Dynol
Rhian Evans	Uwch-swyddog Gweithredol
Carol Edwards	Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc Bwrdd yr Ymddiriedolion

1.1 Croeso'r Cadeirydd a Sylwadau Agoriadol

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac estynnodd groeso arbennig i Ashok Ahir, Llywydd dros dro, a fyddai'n aros yn y cyfarfod hyd nes 11.30.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ymddiswyddiad Meri Huws, a mynegodd ei ddiolch iddi am ei hymrwymiad a'i hymroddiad i'r Llyfrgell dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a dymunodd yn dda iddi ar gyfer y dyfodol.

Ar wahoddiad y Cadeirydd, cyflwynodd y Llywydd dros dro newydd ei hun a rhoddodd ddisgrifiad cryno o'i sefyllfa ar y pryd. Nododd ei fod yn Ymddiriedolydd Chwaraeon Cymru, yn Llywydd Llys yr Eisteddfod Genedlaethol ac yn Gadeirydd ar Fwrdd Rheoli'r Eisteddfod. O ran ei gyflogaeth, ar hyn o bryd roedd yn ddirprwy gyfarwyddwr ar swyddogaeth gyfathrebu Swyddfa Cabinet llywodraeth y Deyrnas Unedig, ag yntau wedi rhedeg asiantaeth gyfathrebu ddwyieithog lwyddiannus yn y gorffennol, wedi'i lleoli yng Nghaerdydd. Yn ystod ei gyfnod fel Llywydd dros dro, dywedodd y byddai'n canolbwyntio ar gyflawni'r cynllun strategol, *Llyfrgell i Gymru a'r Byd*, a chyflawni argymhellion yr Adolygiad Teilwredig yn ogystal â rhoi'r cymorth angenrheidiol i'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd a'i Dîm Gweithredol.

1.2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Roedd Gwenllian Lansdown Davies ac Elaine Treharne wedi anfon eu hymddiheuriadau.

1.3 Datgan Buddiannau

Datganodd Elin Royles ei bod yn aelod o staff cyflogedig Prifysgol Aberystwyth, a bod ei gŵr yn gweithio i S4C.

Datganodd Susan Davies ei bod yn ymgynghorydd i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yng Nghymru, yn gynrychiolydd ar Grŵp ar gyfer Addysg mewn Amgueddfeydd yng Nghymru, ac yn rhedeg cwmni ymgynghori celfyddydau a threftadaeth annibynnol wedi ei leoli yng Nghymru, a oedd yn gysylltiedig â phrosiect yn mentora tîm o staff iau Amgueddfa Cymru.

Datganodd David Hay ei fod yn Gyfarwyddwr Ymddiriedol ar Archif Sainsbury.

Datganodd Janet Wademan ei bod yn aelod annibynnol o Gyngor Prifysgol Caerdydd.

Datganodd David Michael ei fod yn aelod annibynnol o Bwyllgor Archwilio Cronfa Treftadaeth y Loteri.

Datganodd Pedr ap Llwyd ei fod yn Gyfarwyddwr Anweithredol Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac yn Ymddiriedolwr ac yn Aelod o Fwrdd *Friends of the National Libraries* yn y Deyrnas Unedig.

1.3 Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf a thrafod materion yn codi

Cymeradwywyd y cofnodion yn amodol ar y diwygiad canlynol dan 5.1.

Roedd Archwilio Cymru yn hollol fodlon fod y modd y cafodd arian y cynllun ffyrlo ei drin wedi cael ei gynrychioli'n gywir yn y cyfrifon, a bod y driniaeth yn gyson â'r ffordd y mae sefydliadau eraill yng Nghymru wedi trin yr arian ffyrlo. Dywedodd wrth y Llyfrgell hefyd fod y cynllun ffyrlo yn cael ei weinyddu gan CThEM ac nid ganddyn nhw.

Byddai'r cofnodion diwygiedig yn cael eu dosbarthu ymhlith Ymddiriedolion yn dilyn y cyfarfod.

1.5 Log Gweithredu o'r Cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf 2021

Cadarnhawyd bod pob pwynt wedi ei weithredu.

1.5.1 Nodyn Briffio'r IRO

Cyflwynodd Owain Roberts nodyn briffio mewn ymateb i gwestiwn gan Ymddiriedolion yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd. Roedd y nodyn yn hysbysu Ymddiriedolion nad oedd y Llyfrgell yn bodloni'r meini prawf ac nad oedd ganddi'r capasiti ar y pryd i gyrraedd statws IRO (*Independent Research Organisation*), ac nad oedd hyn yn rhywbeth yr oedd y Llyfrgell yn anelu ato yn y tymor byr i'r tymor canolig.

Fodd bynnag, byddai'r Llyfrgell yn parhau gyda'i threfniant cyfredol o fanteisio ar y cyfleoedd i gydweithio â phrifysgolion a Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru a thu hwnt, a hefyd i weithio gyda phartneriaid eraill trwy'r bartneriaeth Cymru Hanesyddol.

Nododd Ymddiriedolion y gallai'r Llyfrgell fabwysiadu dull gweithredu mwy strwythuredig ar gyfer ymchwil, o ystyried ei statws fel sefydliad ymchwil blaenllaw, a chytunwyd y dylid parhau â'r drafodaeth hon yn y Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad ar 29 Hydref.

CYFLWYNIAD:

Mark Stevens, Pennaeth Ystadau a Gwasanaethau Atodol

Ar y pwynt hwn, croesawodd y Cadeirydd Mark Stevens i roi trosolwg o gynnydd y rhaglen gyfalaf a gwaith adeiladu arall.

Yr her allweddol yr oedd y Llyfrgell yn ei hwynebu ar y pryd oedd bodloni'r gwariant cyfalaf ar gyfer mis Mawrth 2022. Roedd y mesurau lliniaru'n cynnwys dod â gwaith o'r flwyddyn nesaf ymlaen, ond petai hynny ddim yn ddigon a phetai'n debygol y byddai tanwariant, yna byddai'n rhaid dweud wrth Lywodraeth Cymru yn brydlon. Roedd cadwyni cyflenwi'n broblematig yn dilyn Brexit hefyd, ac roedd hynny'n achosi cynnydd yn y cyfnod arweiniol cyn dechrau'r gwaith a chynnydd mewn costau.

Cwblhawyd proses dendro ar gyfer dylunio a gosod Ystafell y Post newydd, a chyflwynwyd caniatâd cynllunio a chaniatâd adeilad rhestredig gyda'r hysbysiad cynllunio, ond roedd y Comisiwn Brenhinol wedi codi gwrthwynebiad ar y sail nad oedd natur weledol y strwythur arfaethedig yn gydnaws â natur weledol prif adeilad y Llyfrgell - nid oedd CADW yn rhannu'r pryder hwnnw. Roedd y Llyfrgell yn y broses o drafod er mwyn datrys y mater hwn.

Cafwyd asesiad risg tân llawn gan BPW Fire Safety Ltd. Daeth yr asesiad i'r casgliad bod y tebygolrwydd y gallai tân ddigwydd yn isel, difrifoldeb posibl unrhyw niwed yn niwed cymedrol, a'r risg gyfredol i fywyd yn oddefol. Roedd gan y Llyfrgell gynllun gweithredu mewn

argyfwng cynhwysfawr ar waith a oedd yn cwmpasu gweithdrefnau ac arfer tân; roedd profion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Roedd y contract gwreiddiol ar gyfer monitro '*legionella*' wedi dod i ben, ond cafodd ei ymestyn am gyfnod cychwynnol o chwe mis. Bwriad y Llyfrgell oedd caffael hyn mewn cydweithrediad â Chyngor Sir Ceredigion, ac roedd yn aros iddynt fynegi eu gofynion.

Dywedwyd wrth Ymddiriedolion fod y Llyfrgell wedi cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru am nawdd am bum mlynedd ar gyfer cynnal a chadw'r adeilad a datgarboneiddio; roedd y cais hefyd yn cynnwys datblygu mewnlennwch y cwrt er mwyn darparu derbynfa a siop newydd a hwyluso gwell mynediad, a hefyd datblygu cyfleuster storio Stac Lyfrau 4. Byddai'r ceisiadau hyn yn cael eu trafod ymhellach yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio Ariannol ar 5 Tachwedd.

Cytunwyd y byddai Mark Stevens yn cael ei wahodd i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg ar 8 Hydref er mwyn briffio aelodau ynghylch y rhaglen wariant cyfalaf.

Adran 2 Materion sydd angen trafodaeth a phenderfyniad

2.1 Cynllun Gweithredol Drafft ar gyfer Strategaeth 2021 - 2026

Roedd y Llyfrgell yn dal i aros am fersiwn derfynol y Llythyr Cylch Gorchwyl, a than hynny, nid oedd modd cymeradwyo'r cynllun gweithredol pum-mlynedd. Fodd bynnag, roedd cynllun gweithredol 2020-2021 wedi'i gynnwys yn y fersiwn hon er mwyn galluogi'r Llyfrgell i symud ymlaen gyda'i gwaith.

Disgwyliwyd y byddai dangosyddion perfformiad yn cael eu cyflwyno ar gyfer pob corff cyhoeddus ym mhorthfolio'r Dirprwy Weinidog, gan adlewyrchu blaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu. Byddai gofyn i unrhyw gynllunio alinio gydag argymhellion yr Adolygiad Teilwredig hefyd, yn ogystal â strategaeth newydd y Llyfrgell. Gobeithiwyd cyflwyno'r cynllun pum-mlynedd i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd, yn amodol ar dderbyn y Llythyr Cylch Gorchwyl gan Lywodraeth Cymru.

Pwysleisiwyd fod angen ffocws ar y Llyfrgell o ran ei dangosyddion perfformiad, a bod angen eglurder rhwng dyletswyddau staff, a oedd yn rhai gweithredol, a dyletswyddau'r Bwrdd, sef craffu. Er mwyn galluogi i staff gyflawni eu dyletswyddau, roedd gofyn sicrhau bod y Cynllun Gweithredol mor glir a syml â phosibl, a byddai hyn yn hwyluso gallu'r Bwrdd i olrhain cynnydd ymhob cyfarfod.

Nododd y Bwrdd y cynllun pum-mlynedd drafft a chymeradwyodd y camau gweithredu a nodwyd dan Gynllun Gweithredol 2020-2021.

2.2 Cynllun Gweithredu'r Adolygiad Teilwredig

Argymhelliad 3 yw'r prif bryder o hyd - *Argymhellwn y dylid rhoi sylw brys i ofynion ariannol y Llyfrgell...* Roedd y Llyfrgell yn croesawu'r ffaith fod yr £1m a glustnodwyd ar ddechrau'r flwyddyn i'w gynnwys yn y waelodlin, ond tra byddai hyn yn galluogi'r Llyfrgell i barhau gyda'i gwaith, ni fyddai'n cynnig cwmpas ar gyfer datblygiad pellach.

Byddai'r gyllideb yn cael ei thrafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio Ariannol ar 5 Tachwedd, ond cytunwyd y byddai'n rhaid i'r Llyfrgell lobïo Llywodraeth Cymru am nawdd ychwanegol petai am osgoi ailadrodd y sefyllfa yr oedd ynddi ym mis Ionawr 2021.

2.3 Archif Ddarledu Genedlaethol - y diweddaraf

Rhoddodd Owain Roberts y diweddaraf yn dilyn cyfarfod ar 17 Awst i drafod llywodraethiant y prosiect. Yn ystod y cyfarfod hwnnw, trafodwyd Cynllun Gweithredu'r Prosiect yn fanwl ac, o ganlyniad, safonwyd y derminoleg, ac eglurwyd rolau a chyfrifoldebau dirprwyedig partneriaid allanol. Diolchodd Owain i Quentin Howard a Lydia Rumsey am eu mewnbwn i'r gwaith hwn.

Yn ei gyfarfod ar 15 Medi, cymeradwyodd Bwrdd y Rhaglen Gynllun Gweithredu'r Prosiect, gyda mân-newidiadau, ac roedd Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol hefyd wedi ymateb yn bositif i'r ddogfen ddiwygiedig. Rhannwyd Cynllun Gweithredu'r Prosiect gydag Ymddiriedolion ymlaen llaw, cyn y cyfarfod, er gwybodaeth.

Nodwyd y byddai'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd nawr yn parhau fel Cadeirydd ar Fwrdd y Rhaglen.

2.4 Cylch Gwaith Aelodau'r Bwrdd - y diweddaraf ar lafar

Adroddwyd fod Cadeiryddion y tri phwyllgor sefydlog wedi gweithio gyda Chlerc y Bwrdd i ddatblygu cylch gwaith newydd ar gyfer pob un o'r tri phwyllgor, a oedd hefyd yn adolygu'r cylch gorchwyl ar gyfer pob un o'r tri. Byddai'r rhain nawr yn cael eu trafod ymhellach gyda'r Llywydd dros dro newydd, ac yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd yn ei gyfarfod fis Tachwedd.

Byddai Clerc y Bwrdd yn dosbarthu pob un o'r tri chylch gwaith ymhlith Ymddiriedolion er mwyn cael eu sylwadau.

2.5 Dogfen Fframwaith Llywodraeth Cymru - y diweddaraf ar lafar

Cadarnhaodd Catrin Hughes y byddai copi drafft o'r Ddogfen Fframwaith wedi cael ei gyflwyno i'r Llyfrgell cyn cyfarfod nesaf y Bwrdd.

2.6 Ymgynghorwyr Codi Arian - diweddariad

Adroddodd David Michael fod Richard Newton o Gaerdydd wedi cael ei benodi fel ymgynghorydd a'i fod wedi cwrdd â staff ym mis Awst er mwyn dechrau cwmpasu'r gwaith. Anogwyd unrhyw Ymddiriedolion â diddordeb i gysylltu â David Michael petaent yn dymuno rhoi mewnbwn i'r gwaith hwn. Roedd y Llyfrgell y disgwyl derbyn yr adroddiad cyflawn erbyn diwedd mis Hydref, a byddai'n cael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd.

2.7 Materion Staffio

2.7.1 Siart Sefydliadol Ddiwygiedig

Diolchodd y Cadeirydd i Annwen Isaac, Rheolwr Adnoddau Dynol, am ddarparu siart sefydliadol wedi'i diweddarau ar gyfer Ymddiriedolion.

2.7.2 Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Marchnata a Phartneriaethau - y diweddaraf ar lafar

Byddai'r Prif Weithredwr yn datblygu'r disgrifiad rôl hwn ymhellach unwaith y byddai wedi cael sylwadau Ymddiriedolion, a byddai hefyd yn ymgynghori ag Ashok Ahir.

2.8 Penodiadau'r Bwrdd

2.8.1 Penodi Llywydd ac Is-lywydd

Aeth yr hysbyseb ar gyfer rôl y Llywydd yn fyw ar 13 Medi a byddai'n cau ar 13 Hydref. Penodwyd Goodson Thomas i gynorthwyo gyda'r gwaith o hyrwyddo'r swydd wag. Yn rhan o'r broses, byddai ymgeiswyr yn ymddangos gerbron panel rhanddeiliaid, a byddai'r ymgeisydd llwyddiannus yn ymddangos gerbron un o bwylgorau'r Senedd cyn cadarnhau'r penodiad.

Byddai'r hysbyseb ar gyfer rôl yr Is-lywydd yn fyw ar 20 Medi ac yn cau ar 13 Hydref.

2.8.2 Penodi dirprwy enwol ar gyfer Bwrdd yr Ymddiriedolion

Ystyriwyd penodi dirprwy enwol i gefnogi'r Llywydd dros dro yn ystod y sesiwn gaeedig, ac wedi i Ymddiriedolion ddangos eu dwylo, penodwyd a chymeradwywyd Quentin Howard fel Ymddiriedolydd arweiniol.

2.8.3 Penodi Ymddiriedolydd

Ar y pryd roedd yna sedd wag ar y Bwrdd ar gyfer Ymddiriedolydd a benodir gan y Llyfrgell, a rhoddodd Ymddiriedolion gymeradwyaeth i Glerc y Bwrdd gynnal proses benodi mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru.

2.8.4 Cadeirydd ac Aelod o'r Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad

Gohiriwyd yr eitem hon er mwyn i Ashok Ahir roi mewnbwn i'r broses, ond gobeithiwyd y byddai modd enwebu Cadeirydd cyn cyfarfod y Pwyllgor ar 29 Hydref.

2.8.5 Ymddiriedolydd ar Fwrdd y Cynllun Pensiwn

Roedd yna sedd wag i Ymddiriedolydd ar Fwrdd Cynllun Pensiwn y Llyfrgell, a gadeiriwyd gan y Trysorydd. Yr Ymddiriedolion eraill oedd Anwen Jones a Carl Williams. Dylai unrhyw Ymddiriedolydd a oedd yn dymuno ymuno â Bwrdd y Cynllun Pensiwn gysylltu â David Michael erbyn 1 Hydref.

2.8.6 Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Risg

Cafwyd dau gais, a byddai cyfweiliadau ar gyfer y rôl y cael eu cynnal ar 30 Medi. Byddai'r panel cyfweld yn cynnwys Janet Wademan, Cadeirydd Archwilio a Risg, Lee Yale-Helms, Trysorydd a David Michael, Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr, Adnoddau Corfforaethol.

Adran 3 Adroddiad y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd

Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at y canlynol yn ei adroddiad i Ymddiriedolion.

Byddai'r Dirprwy Weinidog, Dawn Bowden AS, yn ymweld â'r Llyfrgell ar 14 Hydref. Roedd agenda'n cael ei lunio ar y pryd gogyfer â'i hymweliad, ond gobeithiwyd lansio'r cynllun strategol, *Llyfrgell i Gymru a'r Byd* yn ystod ei hymweliad. Gofynnwyd i Ymddiriedolion ddweud wrth Rhian Evans petaent yn dymuno bod yn bresennol yn y lansiad.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch bwriad y Llyfrgell i ddychwelyd at yr arfer o gyhoeddi rhaglen chwarterol o ddigwyddiadau, cadarnhaodd y Prif Weithredwr na fyddai hyn yn digwydd yn y dyfodol, ond cytunwyd ystyried cyhoeddi taflen un dudalen o ddigwyddiadau'r dyfodol.

Adran 4 Cydymffurfiaeth a Risg

4.1 Cofrestr Risgiau Gorfforaethol

Cyfarfu Janet Wademan, Cadeirydd Archwilio a Risg, David Michael ac Emyr Phillips ar 16 Medi i drafod y gofrestr risgiau gorfforaethol cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Risg ar 8 Hydref.

Adroddodd David Michael fod R2 - Yr Archif Ddarlledu Genedlaethol, wedi lleihau gan fod caniatâd amodol i ddechrau bellach wedi ei dderbyn. R7 - rhaglen gyfalaf, eisoes wedi cael ei thrafod; roedd y risg hon yn datblygu ac roedd gofyn gwneud gwaith pellach ar liniaru'r risgiau.

Sicrhawyd Ymddiriedolion fod y broses ar gyfer esgoli risgiau o gofrestrau risgiau adrannol i'r gofrestr risgiau gorfforaethol yn golygu trafodaeth rhwng penaethiaid adrannau a'r cyfarwyddwyr mewn cyfarfodydd rheoli misol. Byddai pob cofrestr risg adrannol yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn ei gyfarfod ar 8 Hydref ac yna gallai'r Pwyllgor graffu arnynt ac ystyried a fyddai angen eu halinio ymhellach gyda'r gofrestr risgiau gorfforaethol. Cytunwyd cynnal sesiwn ar wahân hefyd lle byddai modd craffu'n fanylach ar y cofrestrau risg adrannol.

Adran 5 Materion Ariannol

5.1 Cyllideb 2021 – 2022

Adroddodd Nicola Guy, CyMAAL, ei bod yn gweithio gyda'r Tîm Gweithredol ar y pryd i lunio cais ar gyfer cyllideb refeniw tair blynedd, a chyfalaf pedair blynedd, yn y gobaith y byddai modd sicrhau setliad aml-flwyddyn. Byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei chyllideb ar 1 Mawrth 2022.

Cyflwynodd Emyr Phillips y gyllideb derfynol ar gyfer 2021 - 22 a nododd nad oedd wedi newid yn sylweddol o'r un a gyflwynwyd i gyfarfod diwethaf y Bwrdd a'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol.

Nododd Ymddiriedolion y gyllideb derfynol.

5.2 Cyfrifon Rheoli Gorffennaf 2021

Cyflwynodd Emyr Phillips y cyfrifon rheoli ar gyfer mis Gorffennaf 2021, ac nid oedd ganddo unrhyw beth pellach i'w ychwanegu at ei adroddiad ac eithrio rhoi sicrwydd ar gyfer costau prosiect; roedd yr oedi wrth brosesu hawliadau chwarterol i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn gyfrifol am y diffyg (gweler R2 ar y gofrestr risgiau gorfforaethol).

5.3 Ymarfer Cynllunio Cyllideb - adroddiad ar lafar

Trafodwyd hyn eisoes dan 5.1, a gofynnodd Ymddiriedolion i Lywodraeth Cymru eu diweddarau ar gynnydd, yn enwedig gan nad oedd y gyllideb yn cael ei chyhoeddi hyd nes yn hwyr yn y flwyddyn ariannol.

Adran 6 Adroddiadau o Bwyllgorau

6.1 Cofnodion Drafft y Pwyllgor Archwilio a Risg a gyfarfu ar 09.07.21

Roedd y Cadeirydd, Janet Wademan, wedi rhoi adroddiad llafar yng Nghyfarfod y Bwrdd ar 23 Gorffennaf.

Holwyd a oedd y Llyfrgell wedi cyflwyno'r hunanasesiad Cyber Essentials erbyn diwedd Gorffennaf fel y nodwyd yn y cofnodion; ymatebodd llltud gan ddweud na chafodd hynny ei wneud oherwydd materion staffio, ac y byddai'n adrodd ymhellach ar hyn yn y Pwyllgor Archwilio a Risg ar 8 Hydref.

6.2 Cofnodion Drafft y Panel Adeiladau a gyfarfu ar 15.07.21

Nid oedd gan y Cadeirydd, Mike Cavanagh, unrhyw beth i'w ychwanegu at y cofnodion a nododd fod y prif faterion eisoes wedi cael sylw dan gyflwyniad Mark Stevens yn gynharach.

Dywedodd y Cadeirydd dros dro y byddai'r Panel Adeiladau, dan strwythur arfaethedig newydd y Pwyllgorau, yn adrodd i'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau (y Pwyllgor Cynllunio Ariannol ar hyn o bryd).

Adran 7 Unrhyw Fater Arall

7.1 Cylch Busnes 2021

Cyflwynwyd i'r Bwrdd fel eitem sefydlog, er gwybodaeth yn unig, a byddai'n cael ei ddiweddarau ar ôl y cyfarfod.

Bathodynnau Ymddiriedolion

Gofynnodd y Cadeirydd dros dro am roi bathodynnau enwau i'r Ymddiriedolion newydd; byddai Clerc y Bwrdd yn trefnu hynny.

Diwrnod 'Cwrdd i Ffwrdd' i Ymddiriedolion

Awgrymwyd y dylai Ymddiriedolion gynnal diwrnod 'cwrdd i ffwrdd' er mwyn trafod eu gweledigaeth a'u huchelgais ar gyfer y Llyfrgell, ymhlith elfennau eraill. Byddai Clerc y Bwrdd yn trafod hyn gydag Ashok Ahir i gychwyn.

SESIWN GAEEDIG A GYNHALIWYD RHWNG 19.00 – 10.30

Crynodeb o'r materion a drafodwyd a phenderfyniadau a gymerwyd yn y sesiwn gaeedig.

Trefniadau dros-dro'r Bwrdd

Hyd nes bydd Llywydd ac Is-Lywydd parhaol yn cael eu hapwyntio, penodwyd Quentin Howard fel Ymddiriedolwr arweiniol i gynorthwyo Ashok Ahir, y Llywydd dros-dro, ac i weithredu fel dirprwy enwebedig pan na fyddai'n medru mynychu cyfarfodydd.

Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Marchnata a Phartneriaethau

Bydd rôl y Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Marchnata a Phartneriaethau'n cael ei ddatblygu ymhellach, a bydd disgrifiad rôl diwygiedig yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd.

Pwyllgor Tâl

Mae cylch gorchwyl ar gyfer Pwyllgor Tâl posibl o dan ystyriaeth ar hyn o bryd.

Cydnabyddiaeth y Llywydd

Cytunwyd a chadarnhawyd cydnabyddiaeth ar gyfer swydd y Llywydd dros-dro.

PWYNTIAU GWEITHREDU’N DEILLIO O’R CYFARFOD

Eitem agenda	Gweithred	Cyfrifoldeb	Dyddiad gweithredu/disgwylir
1.6.1	Bydd trafodaeth bellach ar ymagwedd y Llyfrgell tuag at ymchwil yn y Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad	Owain Roberts	Cwblhawyd
Cyflwyniad	Gwahodd Pennaeth Ystadau i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar 8.10.21	Clerc	Cwblhawyd
2.4	Cylchredeg cylchoedd gorchwyl y pwyllgorau i'r Ymddiriedolwyr am eu sylwadau	Clerc	Cwblhawyd, a'r sylwadau wedi eu hymgorffori yn y fersiynau diwygiedig
4.1	Trefnu gweithdy i drafod cofrestrï risg	Clerc/Janet Wademan	I'w drefnu ym mis Tachwedd
7.1	Darparu bathodynau enwau i'r Ymddiriedolwyr	Clerc	Ar waith